Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 6:
Beth fyddwn yn ein galw ein hunain?

Amcan Dysgu

- Annog arloesi a chreu syniadau.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl dargyfeiriol – creu syniadau
- Arloesedd

Cysylltiadau

- Cyflwyno

Trefniadaeth

- Gwneud Penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu beth sy'n gwneud enw da ar gyfer busnes:

- *Hawdd ei gofio*
- *Yn dweud wrth bobl am y cwmni*
- *Yn egluro beth mae'r cwmni yn ei wneud*

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau i feddwl am enwau cofiadwy ar gyfer eu menter. Er enghraifft gallant:

- ddewis enw sy'n disgrifio'r hyn y mae'r cwmni yn ei wneud
- meddwl am enw unigryw , ond gall hyn olygu fod pobl yn cymryd mwy o amser i'w gofio.

Ar ôl ystyried llawer o gyfuniadau a gwrando ar syniadau pawb, lluniwch restr fer o enwau. Gwiriwch ar-lein nad ydi'r enwau eisoes yn bodoli neu fod iddynt ystyr amhriodol mewn iaith dramor.

Gan ddefnyddio'r rhestr fer, gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio i benderfynu ar enw 'cwmni'.

Cyflwynwch y syniad o gael logo a.y.b. Mae logo yn golygu llawer mwy na delwedd yn unig: mae'n rhan o frand cwmni. Mae logo sydd wedi ei gynllunio yn dda yn awgrymu i'r cwsmeriaid fod y cwmni yn darparu nwyddau a gwasanaethau o'r radd flaenaf.

Gweithgaredd 6: Beth fyddwn yn ein galw ein hunain?

Cynradd Uwch

Gofynnwch i'r disgyblion gasglu gwahanol fathau o logos o gylchgronau a phapurau newydd.

Fel dosbarth crëwch "Ysgol logos", drwy drefnu'r logos mwyaf effeithiol ar y brig a'r lleiaf effeithiol ar y gwaelod.

Trafodwch rinweddau a nodweddion dylunio'r logos. Mewn grwpiau gofynnwch i'r disgyblion nodi'r pethau maen nhw'n eu hoffi a'r rhai nad ydynt yn eu hoffi am logo. Ystyriwch nodweddion megis:

- y neges mae'n ei rhoi am y cwmni
- y cleientiaid neu gwsmeriaid mae'n apelio atynt
- y defnydd o liw; gan ei bod yn ddrud argraffu mewn lliw ystyriwch a fydd y logo yr un mor effeithiol mewn du a gwyn.

Mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh neu ddeunyddiau celf i ddylunio logos ar gyfer eu menter. Mae'r disgyblion yn cyflwyno'u syniadau i'r dosbarth. Oherwydd bod hyn yn rhoi cyfle i asesu cymheiriaid gofynnwch i'r disgyblion roi adborth adeiladol.

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio i benderfynu ar y dyluniad logo.

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn creu syniadau dychmygus.

Adnoddau sydd eu hangen

- Enghreifftiau logo o gylchgronau a phapurau newydd
- TGCH
- Deunyddiau celf
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Gweithgaredd 6: Beth fyddwn yn ein galw ein hunain?

Cynradd Uwch

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Celfyddydau Mynegiannol

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth ac yn defnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando am ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

2. Cymhwysedd Digidol

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso a gwella cynnwys digidol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government